# Polisi Castio

## Cyflwyniad

Mae Cyfarwyddwr Artistig Theatr Cymru a Chyfarwyddwr y cynhyrchiad, gyda chefnogaeth y Tîm Cynhyrchu, yn gyfrifol am gastio cynyrchiadau a gweithdai Theatr Cymru.

Rydym yn hyrwyddo amrywiaeth ym mhob ffurf o fewn ein prosesau castio ac rydym yn ymroddedig i greu amgylchedd clyweliad diogel a chefnogol lle mae perfformwyr yn cael eu grymuso i wneud eu gwaith gorau.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal a thegwch i bob perfformiwr, heb wahaniaethau ar sail oedran; anabledd; rhywedd; statws priodasol; beichiogrwydd neu bod yn rhiant; hîl neu ethnigrwydd; crefydd neu gred; cyfeiriadedd rhywiol; na chefndir economaidd.

Rydym yn deall pwysigrwydd gweledydd a chynrychiolaeth ar y llwyfan ac rydym yn angerddol am adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn ein gwaith.

## Proses

Mae'r rhan fwyaf o'n castio yn cael ei bennu gan glyweliadau, sy'n cael eu cynnal mewn lleoliadau cwbl hygyrch.

Ein nod yw cwrdd â'r ystod ehangaf bosibl o berfformwyr Cymraeg eu hiaith yn ystod y broses castio. Rydym yn defnyddio amrywiaeth o gyfeiriaduron, offer castio ac asiantaethau, gan gynnwys Spotlight, ac yn gwahodd dulliau unigol ar sail nad yw'n gwahaniaethu. Mae croeso i berfformwyr anfon eu manylion i creu@theatr.com, yn enwedig rhai sy’n hunan-gynrhychioledig, a rydym o hyd yn ymateb ac yn rhannu’r wybodaeth yn fewnol.

Mae’n bosib dysgu am y cynyrchiadau sydd ar ddod yn ein cyhoeddiadau tymor ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol. Credwn fod sesiynau castio penodol sy'n canolbwyntio ar brosiectau yn fwy gwerthfawr i artistiaid a chyfarwyddwyr, felly anaml y byddwn yn cynnal clyweliadau agored, ond os gwnawn ni bydd y rhain yn cael eu hysbysebu ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Rydym yn anfon ffurflen mynediad a rhybuddion cynnwys at bawb sy’n mynychu clyweliad, er mwyn ymateb i unrhyw ofynion mynediad. Rydym hefyd yn annog perfformwyr i rannu eu rhagenwau os mae nhw'n gyfforddus gwneud.

Rydym yn gallu cynnig dulliau amgen o glyweld (er enghraifft, ar-lein) a chynnig amseroedd hyblyg (os yn bosib).

Rydym o hyd yn anfon detholiadau o sgript (os oes sgript) ar gyfer y clyweliadau cyn y clyweliad, ac rydym yn anelu i wneud hyn o leiaf wythnos cyn y dyddiad clyweld.

Rydym yn talu costau teithio unigolion am ail glyweliadau, ond nid ar gyfer clyweliadau cychwynnol neu gyfarfodydd rhagarweiniol. Rydym wedi ymrwymo i hwyluso trefniadau i gyd-fynd â chyfrifoldebau gofal unigolion ac unrhyw drefniadau sydd eisoes ar waith.

Rydym yn gweithio yn unol â Phecyn Cymorth UK Theatre, Canllaw Clyweld y Casting Director's Guild a chyngor Equity ar glyweliadau. Mae hyn yn golygu, fel isafswm, y bydd perfformwyr:

- Yn cael digon o amser i baratoi, pryd bynnag y bo modd.
- Yn gwybod pwy y byddant yn cwrdd, a beth a ddisgwylir ganddynt yn y clyweliad.
- Yn cael unrhyw anghenion neu ofynion mynediad wedi'u bodloni.
- A'u hasiant yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y broses castio gyda phenderfyniadau, y camau nesaf a/neu ail glyweliadau.

Bydd perfformwyr bob amser yn derbyn o leiaf ymateb 'ie' neu 'na' ar ôl clyweliadau Theatr Cymru. Rydym yn cynnig adborth i bob perfformiwr wedi clyweliad, os ydyn nhw'n gofyn am hyn. Oherwydd llwyth gwaith a chyfyngiadau amser efallai y bydd yr adborth yma yn cael ei anfon peth amser wedi'r clyweliad.

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Rydym yn blaenoriaethu profiad bywyd (*lived experience*) yn ein proses gastio ac yn credu y dylai'r actor sy'n cael ei gastio adlewyrchu nodweddion personol y cymeriad, lle bynnag bo modd – yn enwedig os yw'r nodweddion hyn yn nodweddion gwarchodedig. Rydym hefyd yn ystyried artistiaid o gefndiroedd amrywiol ar gyfer pob rôl, nid yn unig ar gyfer rolau a ysgrifennwyd â nodweddion penodol.

Mae Theatr Cymru wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth o fewn ein cynyrchiadau a helpu i wella ymarfer cydraddoldeb ar draws y diwydiant theatr. Rydym hefyd yn castio heb ragfarn yn erbyn y cefndir addysgol neu hyfforddiant unigolion (e.e. unigolion sydd heb dderbyn hyfforddiant ffurfiol). .

Mae'n bwysig ystyried beth yw goblygiadau castio neu ddewis creadigol penodol. Er enghraifft, os yn castio actor sydd ag agweddau gweladwy i'w hunaniaeth (e.e. hil, rhyw neu anabledd), beth yw effaith hynny ar y cymeriad maent yn ei bortreadu a naratif y cymeriad yna? Mae'r dull yma o gastio yn cydnabod a dathlu dylanwad ac effaith nodweddion actor ar y broses o ddatblygu cymeriadau ac ar ganfyddiad cynulleidfa, yn hytrach na cheisio anwybyddu hynny.

Mae gan Theatr Cymru uchelgais i gynyddu nifer y perfformwyr gyda nodweddion gwarchodedig y byddwn yn cyflogi dros y 5 mlynedd nesaf. Mae modd dod o hyd i'r amcanion mesuradwy i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu llawrydd, sy'n cynnwys criw cast a chynhyrchu, ac amrywiaeth y gwaith rydym yn ei ddatblygu, yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (i'w gyhoeddi ar-lein yn fuan).

Theatr Cymru
Polisi Castio
Adolygwyd: Chwefror 2025

**Yr Iaith Gymraeg**

Mae datblygu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y celfyddydau yn hynod bwysig i ni ac rydym yn cefnogi siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg/siaradwyr Cymraeg newydd i ddatblygu eu hyder a gwella'u sgiliau yn y Gymraeg ar bob cyfle. Mae esiamplau o'r gefnogaeth yma yn cynnwys: cyfeirio artistiaid at gyrsiau dysgu Cymraeg cyffredinol ac at rai penodol ar gyfer artistiaid drwy Ysgogwr y Gymraeg, Cyngor Celfyddydau Cymru; hwyluso sesiynau un-wrth-un gyda thiwtor Cymraeg ac/neu hwyluso sesiynau gyda chyfarwyddwr llais; hwyluso sgyrsiau grŵp trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda phresenoldeb cyfieithu ar y pryd; a thrafod ymlaen llaw er mwyn cynnig cefnogaeth sy'n diwallu angen.

**Gwybodaeth i berfformwyr: Cysylltwch â ni**

Fel tîm, rydym yn gweld llawer o gynyrchiadau bob blwyddyn, sy'n cynnwys cynyrchiadau ysgolion drama a dangosiadau 'showcases'.

Os hoffech ein gwahodd i weld eich gwaith, e-bostiwch creu@theatr.cymru gyda'r manylion ac os oes modd i un o'r tîm fod yn bresennol, byddwn mewn cysylltiad. Rydym yn ymwybodol o'n heffaith amgylcheddol felly peidiwch â phostio copïau caled o CVs, headshots neu wahoddiadau i'r swyddfa.

Mae ein rhaglen Drws Agored yn cynnig sesiynau agored i artistiaid gyfarfod ag aelodau o'n tîm, a mae croeso i actorion gofrestru ar gyfer y sesiynau hyn.